Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Leoliad Cyn-Ysgol School Lane
# Church Walks
# Llandudno
# Conwy
# LL30 2HL

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Lleoliad Cyn-Ysgol School Lane

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Lleoliad Cyn-Ysgol School Lane |
| Categori'r gofal a ddarperir | Addysg a gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Sandra Mary Cox |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Sandra Mary Cox |
| Nifer y lleoedd | 52 |
| Amrediad oedran y plant | Rhwng dwy ac wyth oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 18 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | Ddim yn berthnasol |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, o 8.30am tan 5.00pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg, am fod y gwasanaeth wedi'i leoli mewn ardal Saesneg yn bennaf, ac nid yw'r darparwr yn bwriadu cynnig gwasanaeth Cymraeg ar hyn o bryd |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 08/12/2015 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 01/10/2011 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 16/07/2019 |

Gwybodaeth ychwanegol

Mae ychydig o blant yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae gan ychydig iawn o blant angen dysgu ychwanegol.

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

***Ni nodwyd unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.***

## Argymhellion

A1 Gwella gallu ymarferwyr i ennyn diddordeb plant am gyfnod priodol yn llwyddiannus yn ystod gweithgareddau grŵp cyfan

A2 Sicrhau bod ymarferwyr yn herio plant mwy abl fel eu bod yn gwneud cynnydd da

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith mewn perthynas â 'datblygu medrau iaith plant yn raddol yn yr ardal chwarae rôl, gan adlewyrchu eu hardal leol', i'w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn dda i ymateb i ryngweithio cadarnhaol gan ymarferwyr. Maent yn gwneud dewisiadau ac yn cyfrannu eu syniadau ar gyfer gweithgareddau yn effeithiol gyda chymorth gan ymarferwyr gan ddefnyddio bwrdd syniadau'r lleoliad. Mae'r rhan fwyaf o blant yn trafod eu chwarae ac yn rhannu syniadau am yr hyn y maent yn ei wneud a'r hyn yr hoffent ei wneud nesaf yn hyderus. Er enghraifft, mae plentyn yn gofyn am gael ei godi i deimlo'r dail y mae'n edrych arnynt.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd y lleoliad yn frwd ac yn ymdopi'n dda pan fyddant yn cael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Mae'r nifer fach o blant sy'n ei gweld yn anodd cael eu gwahanu yn ymateb yn dda i'r technegau tynnu sylw a ddefnyddir gan ymarferwyr. Mae gan bron bob un o'r plant berthnasoedd da iawn gydag ymarferwyr ac maent yn mynd atynt yn hyderus i gael sicrwydd a chysur. Er enghraifft, pan fydd wedi blino, mae plentyn yn eistedd ar lin ymarferwr ac yn ymlacio tra'n rhannu stori.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu hyder a'u hunan-barch yn dda. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i ganmoliaeth ac yn falch o'u cyflawniadau. Er enghraifft, mae plentyn yn dangos y sticer a gafodd am helpu cyfrif faint o blant sy'n eistedd mewn cylch yn falch. Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio moesau da pan gânt eu hannog, ac maent yn gwrtais. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gweithio gyda'i gilydd neu'n chwarae ochr yn ochr â'i gilydd yn hapus, ac yn rhannu adnoddau'n dda.

Mae bron pob un o'r plant yn frwdfrydig iawn ynglŷn â threulio amser yn yr awyr agored, ac maent yn ymfalchïo mewn dyfrio'r llysiau maen nhw wedi eu plannu. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dal ati i ganolbwyntio'n dda wrth iddynt ddefnyddio taclau cydio yn fedrus i godi a chyfrif detholiad o foch coed yn Gymraeg a Saesneg, a'u rhoi mewn basged wiail. Maent yn ddysgwyr gweithgar a chwilfrydig ac yn mwynhau chwilio yn y pwll tywod am greaduriaid y môr sydd wedi'u cloddio.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu dysgu, eu dealltwriaeth a'u medrau yn effeithiol iawn wrth iddynt gymryd rhan yn yr ystod eang o weithgareddau diddorol a ddarperir gan ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn ymchwilio i dywod sych a gwlyb ac yn archwilio pa wead yw'r gorau i godi cestyll tywod yn llwyddiannus. Wrth chwarae yn y cwt traeth, mae plant yn datblygu eu medrau cyfathrebu a rhifedd yn dda ac yn trwytho eu hunain yn drylwyr yn eu chwarae dychmygol. Er enghraifft, maent yn dynwared rôl siopwr i werthu can dyfrio i'w ffrind ac yn gofyn i ymarferwyr dalu am eu paneidiau o de.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dyfalbarhau'n llwyddiannus i gwblhau tasgau. Maent yn canolbwyntio'n effeithiol i ddal pysgod mawr lliwgar, ac wedi'u rhifo, o'r hambwrdd dŵr, gan ddefnyddio gwialen bysgota yn fedrus.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau annibyniaeth ac yn gofalu am eu hanghenion eu hunain yn llwyddiannus o gofio eu hoedran a'u cyfnod datblygu. Er enghraifft, maent yn helpu paratoi byrbryd, yn defnyddio'r pwmp sebon pan fyddant yn golchi eu dwylo, ac yn gwybod i roi papur yn y bin.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau ar draws holl feysydd dysgu'r cyfnod sylfaen. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n dda ac yn dilyn cyfarwyddiadau gyda dealltwriaeth dda, er enghraifft i ddyfrio planhigion yn yr awyr agored. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymuno'n frwdfrydig mewn caneuon yn Gymraeg a Saesneg ac mae llawer ohonynt yn gwybod y geiriau a'r symudiadau i ganeuon a rhigymau cyfarwydd, fel eu cân 'bore da'. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, nid yw ychydig o blant yn gwrando'n ddigon da yn ystod gweithgareddau grŵp cyfan.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau cyn-darllen ac ysgrifennu. Mae llawer ohonynt yn defnyddio amrywiaeth o offer i greu marciau'n hyderus, gan gynnwys brwsys paent, teiars eu beiciau pedal a sialciau. Maent yn trin offer â medrusrwydd cynyddol, ac yn deall bod ystyr i farciau, er enghraifft wrth ddefnyddio stensilau cardfwrdd i greu patrymau. Mae bron pob un o'r plant yn adnabod eu henwau â hyder cynyddol, ac yn ystod arferion dyddiol, mae llawer ohonynt yn nodi sain gyntaf eu henw. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau storïau ac yn ymuno'n frwdfrydig â geiriau a dywediadau cyfarwydd, fel 'I'll huff and I'll puff'. Mae llawer o blant yn cynnal diddordeb mewn edrych ar lyfrau yn annibynnol, a gydag oedolion.

Mae medrau rhifedd plant yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrif i bump yn hyderus, ac mae ychydig ohonynt yn cyfrif i ddeg a thu hwnt. Wrth edrych ar siapiau, mae llawer ohonynt yn adnabod y delweddau yn hyderus, ac mae ychydig ohonynt yn dechrau adnabod siapiau mwy cymhleth, fel hanner cylchoedd. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol fel 'llawn' a 'gwag' yn gywir, er enghraifft wrth lenwi eu tanciau tanwydd ar eu beiciau â dŵr. Yn ystod gweithgaredd chwarae pysgota, maent yn didoli pysgod yn ôl eu lliw yn llwyddiannus, ac yn enwi ychydig o rifau'n gywir.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol ac yn hyderus yn ystod gweithgareddau chwarae rhydd. Maent yn gweithio switshis a botymau yn bwrpasol, er enghraifft pan fyddant yn clywed yr wylan yn yr ardal chwarae rôl yn gwneud sŵn.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o ran datblygu eu medrau Cymraeg. Maent yn deall gorchmynion syml fel codi eu llaw, ac mae llawer ohonynt yn ymateb yn briodol i gwestiynau ynglŷn â sut maent yn teimlo. Mae bron pob un o'r plant yn gwybod amrywiaeth dda o ganeuon a rhigymau yn Gymraeg ac yn ymuno ynddynt â brwdfrydedd.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda. Maent yn dringo, yn pedalu ac yn rhedeg â rheolaeth gynyddol. Maent yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol, er enghraifft pan fyddant yn ymuno'n frwdfrydig yn ystod gweithgareddau cerddoriaeth i fwrw drymiau a defnyddio taclau ysgwyd â rheolaeth dda. Mae bron pob un ohonynt yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas yn arbennig o dda. Maent yn deall bod angen dŵr ar blanhigion i dyfu ac yn dysgu am eu hardal leol, gan gynnwys glan y môr. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o blant yn siarad yn wybodus am geir cebl, melinau gwynt a'r pier. Mae hon yn nodwedd gref o waith y lleoliad.

Mae llawer o blant yn dechrau datblygu medrau datrys problemau effeithiol ac i gydweithio. Er enghraifft, maent yn helpu ei gilydd i gysylltu cyfres o bibellau bambŵ i sianelu dŵr tuag at eu planhigion nionod.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn dda. Maent yn hyrwyddo bwyta'n iach yn briodol ac mae dŵr yfed ar gael yn rhwydd trwy gydol y dydd i sicrhau bod plant wedi'u hydradu. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn effeithiol. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn arwain dosbarthiadau ioga hwyliog ar gyfer plant, ac yn darparu digonedd o gyfleoedd iddynt chwarae yn yr awyr agored yn yr awyr iach. Maent yn annog plant i frwsio eu dannedd yn rheolaidd, a golchi eu dwylo cyn cael byrbryd ac ar ôl defnyddio'r toiled. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth plant o arferion hylendid personol effeithiol yn dda.

Mae trefniadau i ddiogelu plant yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder. Er enghraifft, mae dealltwriaeth ymarferwyr o arferion amddiffyn plant a chymorth cyntaf yn gyfoes ac yn addas ar gyfer ystodau oedran y plant sy'n derbyn gofal. Ceir trefniadau trylwyr ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau a rhannu gwybodaeth â rhieni. Mae ymarferwyr yn atgyfnerthu rheolau diogelwch ar y ffyrdd yn effeithiol pan fyddant yn cerdded i'r lleoliad o'r ysgol. Maent yn cynnal ymarferion tân ar adegau priodol ac yn cofnodi'r canlyniad yn briodol.

Mae gan ymarferwyr ymagwedd dyner a chyfeillgar at ofalu. Yn gyffredinol, maent yn rheoli rhyngweithio'n dda ac mae hyn yn creu awyrgylch croesawgar a hamddenol yn y lleoliad. Fodd bynnag, yn achlysurol iawn, nid yw ymarferwyr yn cymhwyso strategaethau rheoli ymddygiad yn ddigon hyderus yn ystod sesiynau grŵp cyfan.

Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o weithgareddau chwarae a dysgu y mae plant yn eu mwynhau ac sy'n darparu cyfleoedd gwerth chweil iddynt wneud dewisiadau. Maent yn codi ymwybyddiaeth plant am y byd o'u cwmpas yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn darparu gweithgareddau ysgogol sy'n helpu plant i ddechrau dysgu am wahanol wledydd, fel gwneud raita gan ddefnyddio ciwcymbr a mint o'r ardd, a phlannu gan ddefnyddio sbeisiau gwahanol liwiau. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo amrywiaeth yn briodol trwy ddechrau datblygu ymwybyddiaeth plant o wahanol ddathliadau diwylliannol. Maent yn cynnig cyfleoedd da i blant ddysgu am ailgylchu a chynaliadwyedd. Er enghraifft, ar ôl byrbryd, mae plant yn ailgylchu eu gwastraff bwyd a'u pecynnau yn hyderus.

Ceir ffocws gwerth chweil ar ddatblygiad unigol plant. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n dda ar gyfer eu camau nesaf mewn dysgu ac maent yn adolygu cynnydd yn rheolaidd. Maent yn hysbysu rhieni'n dda am ddatblygiad a lles plant trwy sgyrsiau rheolaidd a system adrodd electronig. Mae ymarferwyr ac arweinwyr yn adnabod pan allai fod gan blant anghenion dysgu ychwanegol, ac maent yn ymateb yn sensitif ac yn gymwynasgar. Defnyddiant gyngor gan asiantaethau eraill yn dda i ddarparu cymorth priodol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae cynllunio ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth dda iawn i ofynion y cyfnod sylfaen, yn adlewyrchu diddordebau plant yn effeithiol ac yn canolbwyntio'n dda ar ddatblygu eu medrau. Ceir cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel sy'n galluogi plant i wneud dewisiadau, mentro a datblygu eu hyder a'u hannibyniaeth yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn defnyddio adnoddau'n ddychmygus i ddatblygu ystod lawn o fedrau ar draws yr holl feysydd dysgu, gan gynnwys medrau meddwl a medrau creadigol plant. Er enghraifft, maent yn darparu cyfleoedd eithriadol o effeithiol i blant ddysgu trwy archwilio amgylchedd byd bach sy'n adlewyrchu eu tref glan môr a'r penrhyn. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o bobl sy'n ymweld â'r lleoliad i wella'r cwricwlwm ac annog plant i ofyn cwestiynau am y byd y maent yn byw ynddo.

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol iawn i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh plant yn yr amgylcheddau dan do ac awyr agored mewn cyd-destun ystyrlon. Mae hon yn nodwedd hynod gryf o waith y lleoliad. Er enghraifft, maent yn helpu plant i ddysgu cyfrif yn effeithiol tra byddant yn ceisio canfod faint o gadeiriau a phlatiau sydd eu hangen arnynt pan fyddant yn gosod y bwrdd ar gyfer parti.

Ar ddechrau'r sesiwn, mae ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn dda pan fyddant yn croesawu plant, ac maent yn eu hannog i ymateb i gyfarwyddiadau a chwestiynau, er enghraifft siarad am liwiau a rhifau yn Gymraeg yn ystod eu harferion dyddiol. Mae ymarferwyr wedi datblygu cyfleoedd defnyddiol yn rhagweithiol i ddatblygu'r Gymraeg, fel defnyddio caneuon a rhigymau'n effeithiol i gyflwyno ymadroddion Cymraeg syml. Ceir digonedd o gyfleoedd gwerth chweil i blant ddysgu am ddiwylliant Cymru.

Mae'r lleoliad yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn fodelau rôl cadarnhaol ac maent yn annog plant i fod yn garedig a chwrtais â'i gilydd yn effeithiol. Cynhelir trafodaethau defnyddiol gyda'r plant am blastig a deunyddiau lapio papur i'w helpu i ddysgu am ofalu am eu hamgylchedd.

Ceir trefniadau effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd plant a chynllunio eu camau nesaf mewn dysgu. Mae ymarferwyr yn arsylwi plant yn ofalus i nodi eu cryfderau a'u meysydd i'w datblygu. Defnyddiant y wybodaeth hon yn arbennig o dda i nodi a dathlu cyflawniadau newydd wrth i blant wneud cynnydd yn eu dysgu. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn dda am gynnydd eu plentyn ar draws meysydd dysgu'r cyfnod sylfaen, trwy gyfarfodydd rheolaidd a thrafodaethau anffurfiol.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o arfer y cyfnod sylfaen, ac maent yn darparu cyfleoedd diddorol a heriol i blant ddysgu trwy chwarae a chyfranogiad gweithredol. Maent yn ymyrryd yn chwarae'r plant yn eithriadol o fedrus i ymestyn eu dysgu, datblygu eu medrau meddwl a'u haddysgu i ofalu am adnoddau. Er enghraifft, maent yn cymryd amser i helpu plentyn i arsylwi a deall effeithiau dŵr ar sialc ac yn dysgu am ganlyniadau eu gweithredoedd. Fodd bynnag, ar adegau, nid ydynt yn herio plant mwy abl yn ddigon da yn ystod gweithgareddau wedi'u harwain gan oedolion. Mae gan ymarferwyr berthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda phlant, ac maent yn rheoli ymddygiad yn dda ar y cyfan. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, nid ydynt yn cynorthwyo plant yn ddigon da i ennyn eu diddordeb yn llawn mewn gweithgareddau grŵp cyfan.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd croesawgar sy’n canolbwyntio ar y plentyn, gyda digon o ofod a chyfleusterau i ddiwallu anghenion plant i safon uchel iawn. Mae toiledau’n lân ac mae cyfleusterau golchi dwylo ar gael yn hawdd. Mae cynllun a dyluniad yr amgylchedd yn hyrwyddo annibyniaeth plant yn dda, gan eu galluogi i archwilio eu hardal chwarae yn rhwydd, a gwneud dewisiadau cadarnhaol. Mae arweinwyr yn arddangos gwaith celf plant yn ddeniadol a cheir ardal ddynodedig iddynt storio eitemau personol, sy’n cyfrannu’n llwyddiannus at greu ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel, ac fe gaiff ymwelwyr eu cofnodi’n briodol. Mae’r amgylchedd yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn dda, ac mae ymarferwyr yn dilyn arferion rheolaidd i gwblhau asesiadau risg yn effeithlon a chadw’r lleoliad yn lân.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o’r gofod chwarae awyr agored deniadol a gynhelir yn dda. Mae’n cynnig amrywiaeth ddiddorol o adnoddau, y mae ymarferwyr yn eu storio’n briodol, ac mae’r rhain yn herio ac ymestyn gwybodaeth a datblygiad plant yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o offer garddio, a chyfarpar ac adnoddau i blant ddarganfod gwahanol ffyrdd o ddyfrio planhigion. Ceir ystod dda o gerbydau pedal a chyfarpar i blant ddewis o’u plith, tra’n mynd ati i ddatblygu eu medrau corfforol yn yr awyr iach.

Mae arweinwyr yn darparu dodrefn, teganau ac adnoddau o faint priodol y mae eu cyflwr a’u hansawdd yn dda. Maent yn cynllunio ardaloedd dysgu deniadol y mae plant yn mwynhau eu defnyddio. Er enghraifft, mae’r gornel gartref wedi’i haddurno’n dda gyda gwrthrychau’r cartref wedi’u hailgylchu a deunyddiau masnachol sy’n ymestyn chwarae plant yn effeithiol.

Mae adnoddau’r lleoliad yn ysgogi diddordeb a dychymyg plant, ac yn eu helpu i ddatblygu eu synhwyrau’n dda. Mae’r rhain yn cynnwys templedi cardfwrdd wedi’u hailgylchu i’w defnyddio ar gyfer creu marciau â sialciau ar yr iard, ac amrywiaeth o gynwysyddion o feintiau gwahanol i ddysgu am gyfaint. Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn dysgu am y byd o’u cwmpas yn dda, er enghraifft trwy ddarparu offerynnau cerdd, doliau a dillad gwisgo i fyny o wahanol ddiwylliannau.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, sy’n canolbwyntio ar ddarparu ethos teuluol cynnes a chroesawgar. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o staff ac mae’n eu herio’n llwyddiannus i wneud eu gorau. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn hapus, yn ddiogel ac yn cael gofal da bob amser. Mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cynorthwyo a’u gwerthfawrogi’n dda yn y lleoliad, ac mae systemau da ar waith i gefnogi cyfnod ymsefydlu ac arfarnu. Mae’r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn ac yn herio’r arweinydd i sicrhau bod y lleoliad yn ymdrechu i gynnal ei ethos eithriadol o ofalgar, trwy gyfarfodydd a thrafodaethau rheolaidd.

Mae datganiad o ddiben y lleoliad yn rhoi darlun cywir o’r hyn mae’r lleoliad yn ei gynnig. Ceir gweithdrefnau effeithiol i sicrhau diogelwch pob un o’r plant a’r staff, ac mae arweinwyr yn adolygu’r rhain yn rheolaidd. Ceir ystod eang o bolisïau a gweithdrefnau priodol, sy’n cefnogi rhedeg y lleoliad o ddydd i ddydd yn llwyddiannus.

Mae arweinwyr yn dilyn prosesau cyflogaeth trylwyr yn effeithiol, ac yn cyflogi digon o ymarferwyr, sydd â chymwysterau priodol, i ofalu am y plant. Mae ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau a cheir proses ymsefydlu briodol sy'n eu cynorthwyo'n llwyddiannus. Mae cyfarfodydd arfarnu rheolaidd yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i ymarferwyr fyfyrio ar eu harfer a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella a nodwyd yn effeithiol. Mae arweinwyr yn annog ymarferwyr i weithio yn unol â'u cryfderau, er enghraifft cymryd cyfrifoldeb am gynnal a gwella ardal, fel y cwt traeth, yr ardd neu'r ardal chwarae rôl. Maent yn cynorthwyo staff yn eu datblygiad proffesiynol fel eu bod yn teimlo y cânt eu cynnwys yn llawn yn y lleoliad, ac yn ymfalchïo yn eu gwaith. Mae arweinwyr yn cynorthwyo ac yn annog ymarferwyr i ddatblygu ystod briodol o strategaethau rheoli ymddygiad effeithiol.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn adnabod y lleoliad yn dda ar y cyfan, ac maent yn cydweithio'n effeithiol i adolygu ei berfformiad a nodi meysydd i'w gwella i raddau helaeth. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn gwerthuso'n rheolaidd sut caiff ardaloedd eu defnyddio gan blant, ac yn eu haddasu pan fydd angen. Mae'r arweinydd yn cynnwys yr holl ymarferwyr, y plant a'r rhieni yn y broses adolygu, ac maent yn nodi meysydd i'w gwella y bydd plant yn elwa arnynt yn briodol.

Mae'r pwyllgor rheoli ac arweinydd y lleoliad yn deall cyllid y lleoliad, ac yn blaenoriaethu gwariant yn hynod effeithiol. Er enghraifft, prynodd y lleoliad barasol mawr yn ddiweddar i orchuddio'r hambwrdd dŵr yn yr awyr agored, er mwyn i'r plant allu chwarae yn y cysgod. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn elwa ar ddarpariaeth ag adnoddau da.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau llwyddiannus a chryf sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth a chynnydd plant. Ceir partneriaeth gref â'r ysgol leol, sy'n cefnogi cyfnod pontio plant yn hynod effeithiol. Mae partneriaethau â rhieni yn dda. Mae staff ar gael yn rheolaidd i siarad â rhieni am gynnydd neu anghenion unigol eu plentyn. Ceir system effeithiol iawn ar gyfer cynnal cysylltiadau rhwng y cartref a'r lleoliad, trwy'r defnydd arloesol a wneir o 'Fagiau Cartref' a rennir. Mae gan y lleoliad gysylltiadau cryf â'r gymuned, gyda phobl sy'n ymweld â'r lleoliad, fel Sefydliad Cenedlaethol y Badau Achub a'r staff a'r plant sy'n mynychu Ffair Nadolig y dref. Mae'r lleoliad yn gweithio'n llwyddiannus gydag asiantaethau eraill i gynorthwyo plant ag anghenion ychwanegol, fel y ffisiotherapyddion a'r therapyddion lleferydd ac iaith.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/09/2019